**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**
**CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 MAI YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon) a Mrs Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa)

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 10:45

**Ymddiheuriadau:** Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon).

**1. Datgan Buddiannau**

1.1. Datganodd Julie May bod ei buddiant mewn perthynas â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys yr arolwg o'r arolwg o'r ffin Tua'r Môr, wedi dod i ben.

**2. Briffiad y Cadeirydd**

2.1. Ni roddodd y Cadeirydd friffiad i'r Comisiwn gan nad oedd unrhyw faterion i adrodd arnynt.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2017**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2017 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn Codi**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 18 Ebrill 2017 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyflawn gan nodi'r mater ar gyfer trafodaeth yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a hefyd nodwyd cynnydd a ddiweddarwyd ynghylch y materion canlynol:

- **(Mater 2)** Staffio - Ni chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y swydd Swyddog Arolygon a hysbysebwyd, ac mae'r swydd wag wedi'i hail-

hysbysebu a hefyd wedi'i dosbarthu yn is-adran noddi Llywodraeth Cymru.

- **(Mater 7)** Strategaeth TG – Mae Cymwysterau Cymru wedi derbyn cytundeb gan ei is-adran noddi y bydd yn gallu symud ymlaen gyda'r cytundeb, a bydd achos busnes yn cael ei ddrafftio a'i anfon at Lywodraeth Cymru maes o law.

## 5. Porth Ymgynghori

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Mai 2017 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

- **Penderfynwyd** llunio cytundeb â Blue Fox Technology ar gyfer dylunio a llunio porth ar gost o cynnal y porth yn barhaus.

## 6. Llety

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 09 Mai 2017 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

6.2. **Penderfynwyd** y bydd y Comisiwn yn

- Gwneud cais i Weinidogion Cymru ar gyfer trosglwyddo'r brydles o LlC i'r Comisiwn a nodi'r cydfuddiant mewn sicrhau parhad o ran llety ar gyfer y dyfodol uniongyrchol.
- Awdurdodi'r Prif Weithredwr i benodi cwmni o gyfreithwyr gydag arbenigedd mewn materion prydlesau.
- Awdurdodi'r Prif Weithredwr i gyfeirio'r cyfreithwyr a benodir i ysgrifennu at y Landlord bod y Comisiwn yn bwriadu cyflwyno Hysbysiad A26, a
- Phenodi cynghorydd ar delerau ac amodau rhentu'r safle yn y dyfodol.

## 7. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Mai 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Cytunodd** y Comisiwn i'r canlynol:

- Y Grŵp Rheoli i ddrafftio risg newydd (CR7) mewn perthynas â Llety.
- Ar ôl ystyried safbwynt y Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch dwy risg debyg i enw da'r Comisiwn, roedd y Comisiwn o'r farn bod y ddwy risg, sef CR3 a OP6, yn ddigon gwahanol i'w cadw fel dwy risg ar wahân.
- CR5: Camau lliniaru newydd i'w hychwanegu o dan risgiau sy'n dod i'r amlwg.

## 8. Adroddiad Cyllideb

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Mai 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 9. Adroddiad Cynnydd Arolygon

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 25 Ebrill 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

9.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 10. Calendr Digwyddiadau

10.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

## 11. Unrhyw Fusnes Arall

11.1. Ni thrafodwyd unrhyw fusnes arall.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 27 Mehefin 2017**